**Hysbysiad o Benderfyniad:**

**Cynigion i Wella'r Ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Prif Ffrwd - Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Rhondda Cynon Taf**

Penderfynodd Cabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9 Ebrill 2025 weithredu'r cynigion canlynol:

- **Cynnig 1:** Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu y Blynyddoedd Cynnar (Ymyrraeth) ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol, yn Ysgol Gynradd Cwmaman. Bydd hyn yn weithredol o 1 Medi 2025.

- **Cynnig 2:** Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu y Blynyddoedd Cynnar (Ymyrraeth) ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol, yn Ysgol Gynradd Penyrenglyn. Bydd hyn yn weithredol o 1 Medi 2025.

- **Cynnig 3:** Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd hyn yn weithredol o 1 Medi 2025.

- **Cynnig 4:** Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu Anawsterau Dysgu Cymhleth ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 i 11 yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Bydd hyn yn weithredol o 1 Medi 2025.

- **Cynnig 5:** Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun, i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd.

Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad mewn perthynas ag unrhyw gynnig yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol ac o'r herwydd, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ni luniwyd Adroddiad Gwrthwynebiad. Gellir gweld copi o'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r cynigion ar wefan y Cyngor drwy'r ddolen isod. Mae modd cael copïau papur ar gais.

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/CompletedConsultations/DarpariaethDosbarthiadauCynnalDysguPrifFfrwdarGyferAnghenionDysguYchwanegolynRhCT.aspx


Cafodd y rhesymau dros y cynnig, a'r rhesymeg y tu ôl iddo, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad yma i'w weithredu eu nodi'n llawn a'u hesbonio yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu'n eang yn gynharach eleni.

Wrth ddod i'w benderfyniad terfynol, daeth y Cabinet felly i'r casgliad bod y buddion yn sgil cyflawni'r cynigion yma'n gadarnhaol dros ben. Bydd y cynigion yn darparu:

- Darpariaeth i gyd-fynd â phroffil presennol anghenion plant ag ADY.
- Darpariaeth cyfnod uwchradd ychwanegol ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth.
- Lleihad yn nifer y trosglwyddiadau rhwng lleoliadau ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed.
- Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar ychwanegol i fodloni’r galw cynyddol am ymyrraeth gynnar.

Yn seiliedig ar y deilliannau yma, penderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r cynigion yma.

Yn gywir,



**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**